# DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER ASESIAD EIRIOLAETH SQE2

| *Sgiliau* | *Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd* | *Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd* |
|---|---|---|
| **Defnyddio iaith ac ymddygiad priodol** | • Mae cyflwyniadau'r ymgeisydd yn glir ac yn eglur/hawdd i'r barnwr eu deall<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer y llys (e.e. yn osgoi defnyddio "rwy'n meddwl" neu "rwy'n credu", ond yn defnyddio ymadroddion fel "Yn fy argymhelliad i, achos yr erlyniad/diffynnydd yw")<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio'r dulliau ffurfiol sy'n briodol mewn llys (e.e. dull cwrtais heb fod yn nawddoglyd) | • Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith sy'n amleiriog, cymhleth, dryslyd neu hirwyntog<br>• Ni ellir deall yr ymgeisydd yn hawdd yn aml<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith nad yw'n briodol mewn llys (e.e. yn defnyddio iaith sy'n rhy anffurfiol neu sgrysiol)<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn defnyddio'r dulliau ffurfiol sy'n briodol mewn llys (e.e. dull anghwrtais, diystyriol neu nawddoglyd) |
| | | |
| **Mabwysiadu trefn glir a rhesymegol** | • Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno ei argymhellion mewn modd rhesymegol (e.e. mae'r ymgeisydd yn strwythuro ei argymhellion fel bod ganddynt ddechrau, canol a diwedd)<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio arwyddbyst priodol er mwyn arwain y barnwr drwy ei argymhellion<br>• Mae'r ymgeisydd yn crynhoi ac yn dod i gasgliadau fel y bo'n briodol i atgyfnerthu'r canlyniadau a ddymunir<br>• Mae'r ymgeisydd yn trefnu ffeithiau mewn trefn resymegol i gefnogi ei ddadleuon neu ei safbwynt | • Mae argymhellion yr ymgeisydd yn ddryslyd ac nid ydynt yn eglur iawn<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn defnyddio unrhyw arwyddbyst priodol i arwain y barnwr drwy ei argymhellion<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn trefnu ffeithiau i gefnogi ei ddadl na'i safbwynt |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyno dadl berswadiol** | • Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno ei achos gyda hyder a phwrpas<br>• Mae'r ymgeisydd yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau'r barnwr (e.e. caiff argymhellion yr ymgeisydd eu cyflwyno mewn ffordd glir a chymhellol) | • Mae’r ymgeisydd yn brin o hyder (e.e. bydd yn aml yn ansicr neu'n betrusgar wrth gyflwyno ei argymhellion)<br>• Mae’r ymgeisydd yn methu â dylanwadu ar benderfyniadau'r barnwr (e.e. mae’r ymgeisydd yn cyflwyno ei argymhellion mewn ffordd sy’n amhendant, heb egni neu nad yw’n gwneud synnwyr) |
| | | |
| **Cyfarch y llys/ymgysylltu â’r llys yn briodol** | • Mae'r ymgeisydd yn gwneud argymhellion ar gyflymder priodol (e.e. mae'r ymgeisydd yn siarad ar gyflymder cyson a chadarn er mwyn sicrhau bod y barnwr yn dilyn ei ddadl)<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio dogfennau (h.y. ei nodiadau ei hun neu ddeunyddiau asesu eraill) lle bo hynny'n briodol i gefnogi ei argymhellion<br>• Mae'r ymgeisydd yn gwrando ac yn ymateb i'r barnwr mewn modd priodol e.e. mae’r ymgeisydd yn rheoli ei hun ac yn gallu ymateb yn effeithiol i gwestiynau a ofynnir | • Mae’r ymgeisydd yn cyflwyno ei argymhellion yn rhy gyflym, yn rhy araf neu mae'r ymgeisydd yn aneglur<br>• Mae'r ymgeisydd yn methu â chyfarwyddo'r llys i ddogfennau lle bo hynny'n briodol i gefnogi ei ddadleuon.<br>• Mae'r ymgeisydd yn rhy ddibynnol ar ei nodiadau neu mae ei nodiadau’n tynnu llawer o’i sylw, yn gyson<br>• Mae'r ymgeisydd yn methu â gwrando nac ymateb i'r barnwr mewn modd priodol e.e. nid yw’r ymgeisydd yn rheoli ei hun yn dda ac nid yw’n gallu ymateb yn effeithiol, neu o gwbl, i gwestiynau a ofynnir |
| | | |
| **Cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol allweddol** | • Mae'r ymgeisydd yn dewis ac yn cyfeirio at ffeithiau yn y dogfennau sy'n berthnasol i argymhellion cyfreithiol | • Mae'r ymgeisydd yn dewis ac yn cyfeirio at yr holl ffeithiau yn y dogfennau, ni waeth p’un a ydynt yn berthnasol i argymhellion cyfreithiol<br>• Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at ffeithiau amherthnasol yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Nid yw'r ymgeisydd yn cyfeirio at ffeithiau perthnasol digonol i gefnogi ei argymhellion |
| ***Y Gyfraith*** | ***Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd*** | ***Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd*** |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | • Mae'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol yn unol â manyleb asesu SQE2 ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun achos y cleient | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol cywir nac yn eu cymhwyso i faterion ffeithiol<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol cywir mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghenion a phryderon y cleient |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | • Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun achos y cleient e.e. mae'n asesu gwybodaeth er mwyn nodi materion a risgiau allweddol; mae'n dod i gasgliadau rhesymol a gefnogir gan dystiolaeth berthnasol<br>• Lle bo'n berthnasol, mae'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol ac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) | • Nid yw dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun achos y cleient e.e. mae'r ymgeisydd yn dangos dim neu ychydig o ddealltwriaeth o'r materion allweddol; mae'n methu â defnyddio'r dystiolaeth a ddarperir er mwyn dod i gasgliadau rhesymol<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol nac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) |